AMGUEDDFA CYMRU

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2025-2028






















## Rhagair a chyflwyniad gan Gadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Prif Weithredwr

Mae Amgueddfa Cymru yn elusen ac yn deulu o saith amgueddfa genedlaethol a chanolfan gasgliadau wedi'u gwasgaru ar draws Cymru. Ond rydyn ni'n fwy na'n hadeiladau; mae ein hamgueddfeydd yn ganolfannau cymunedol allweddol sy'n llawer mwy na lleoliadau ar fap. Ein nod yw defnyddio stori Cymru i ysbrydoli pawb fyddwn ni'n dod i gyswllt â nhw, gan gydnabod bod gan bawb rywbeth i'w gyfrannu drwy ein hamgueddfeydd, ein casgliadau a'r gwaith rydyn ni'n ei wneud.

Mae ein croeso am ddim ac rydym yma i bawb o bob cymuned, ac mae ein cymunedau yn ein helpu i ddangos fod Cymru ddoe, heddiw ac yfory yn genedl amrywiol. Mae gan ein hamgueddfeydd rywbeth i sbarduno, cyffroi neu newid pob un ohonom. Mae Amgueddfa Cymru yn perthyn i ni i gyd – eich stori chi yw ein stori ni.

Mae Amgueddfa Cymru yn anelu at fod yn gorff gwirioneddol Wrth-hiliol, Gwrth-ableddol, agored, cynhwysol ac amrywiol, lle bydd pawb yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu a'u grymuso ac yn gallu ymgysylltu â'r Casgliadau Cenedlaethol, arddangosfeydd a mentrau addysg, boed hynny er mwyn dysgu a hamddena, cymryd rhan, gweithio neu wirfoddoli.

## Ein cynnydd a'n huchelgais

Rydym yn ceisio adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn ystod Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2022-2025 (oedd yn cynnwys saith cam gweithredu strategol uwch) yn ogystal â mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn Adroddiad yr Adolygiad Teilwredig a gyhoeddwyd yn 2023.

Rydyn ni hefyd wedi ystyried ein gwaith parhaus ar ein Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad 2022-2025 wrth lunio'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn. Byddwn yn parhau i weithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru, er enghraifft, ar amcanion ar y cyd a fydd yn cael eu diffinio a'u gwireddu ar y cyd yn rhan o lunio ein cynllun gwireddu manwl.

Carem ddiolch i'r Tasglu Ehangu Ymgysylltiad sy'n cynnwys pobl â phrofiad bywyd a phartneriaid cymunedol ag arbenigeddau perthnasol am weithio gyda ni ar y gwaith hwn ac am ein dwyn i gyfrif. Rydyn ni'n edrych ymlaen at barhau i weithio gyda'r Tasglu ar fynd i'r afael â chanfyddiadau adroddiadau ymchwil Ehangu Ymgysylltiad 2020.

Rydyn ni'n cydnabod bod yn golygu gwneud mwy i feithrin diwylliant cynhwysol ar gyfer ein Bwrdd, ein staff, ein gwirfoddolwyr, cymunedau amrywiol a lleiafrifedig Cymru a'n hymwelwyr, wyneb yn wyneb ac ar-lein.

Bydd yn rhaid i ni newid mewn llawer o feysydd, gan gynnwys dangos ein cynnydd a bod yn uchelgeisiol, gan anelu nid yn unig at ddiwallu'r gofynion ond rhagori arnynt, yn unol â deddfwriaeth a mentrau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth San Steffan, gan gynnwys:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a'n Safonau Iaith Gymraeg
- Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol 2024
- Cynllun Cyflogwyr Hyderus o ran Anabledd
- Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Deddf Cydraddoldeb 2010
- Cynllun Gweithredu LHDTC+

Byddwn yn ceisio sicrhau cynnydd o ran cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant, llesiant a pherthyn, ochr yn ochr â gwaith ehangu ymgysylltiad a mynd i'r afael â thlodi plant a mathau eraill o dlodi, trwy ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol.

Rydyn ni fel sefydliad wedi wynebu cyfnod heriol o leihad yn ein cyllideb ac ailstrwythuro, ac mae'r hinsawdd ariannol a blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd yn dal i fod yn heriol.

Mae cyfnod cyffrous o'n blaenau, gan gynnwys project ailddatblygu Amgueddfa Lechi Cymru a'n huchelgais ar gyfer Caerllion Rufeinig mewn partneriaeth â CADW a Chyngor Dinas Casnewydd. Rhaid i ni hefyd barhau i ddatblygu a chynnal a chadw ein hystâd.

Mae cyfleoedd lu ynghlwm â'r gwaith hwn ond mae hefyd yn heriol.

Wrth gynllunio a gweithredu byddwn yn cydnabod pwysigrwydd tegwch ym mhob agwedd ar ein gwaith, yn ogystal â'r angen i sicrhau fod llawer o leisiau a safbwyntiau gwahanol yn helpu i lywio ein dyfodol.

Er mwyn llwyddo, byddwn yn mynd ati'n rhagweithiol i gydnabod, lleddfu a lle bo'n bosib, mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau at fynediad i'n hamgueddfeydd, y casgliad, ein gwasanaethau, gweithio gyda ni neu wirfoddoli gyda ni. Byddwn yn ymgysylltu â chymunedau a grwpiau amrywiol a lleiafrifedig ar draws Cymru ac yn cyd-greu â nhw.

Mae gan y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn dair nod:

**Ein Hymwelwyr a'n Cymunedau**

**Ein Diwylliant**

**Ein Harweinwyr**


Ein bwriad yw sicrhau fod y nodau hyn yn uchelgeisiol ac yn adeiladu ar y saith amcan a nodwyd yng nghynllun 2022-2025.

Byddwn yn eu gwireddu trwy lunio cynllun gweithredu manwl tair blynedd, a byddwn yn monitro cynnydd yn chwarterol gan adrodd yn flynyddol. Bydd amcanion a chamau gweithredu'r cynllun gweithredu yn fesuradwy, ac yn nodi amserlen ac aelod o staff cyfrifol.

Byddwn yn rhannu ein cynnydd gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol, gan gynnwys y Tasglu Ehangu Ymgysylltiad, a byddant yn craffu ar ein gwaith.

Yn ystod oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, sef 2025-2028 byddwn yn adolygu'r tair nod yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol. Byddwn yn bragmataidd ac yn hyblyg wrth ein gwaith, gan ddiweddaru'r cynllun yn ôl yr angen.

Byddwn ni hefyd yn meincnodi ein gwaith yn unol â safonau'r diwydiant, gan adolygu'r arferion gorau a rhwydweithio ac ymgynghori ag Amgueddfeydd a chyrff sector cyhoeddus eraill ar draws Cymru a gweddill y DU, ac yn dysgu gan gyrff y trydydd sector, ein cymunedau a'n partneriaid a chyrff hyd braich eraill.


Ein Hymwelwyr a'n Cymunedau
Amgueddfa Cymru
Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2025 - 2028
Ein Harweinwyr
Ein Diwylliant

| Mae **Ein Hymwelwyr a'n Cymunedau** wrth wraidd popeth a wnawn. Rydyn ni'n cynnig lle deniadol, hygyrch, croesawgar a chynhwysol ar gyfer ein hymwelwyr a'n cymunedau. Bydd ffocws ar degwch a hygyrchedd ar gyfer cymunedau lleiafrifedig gan gynnwys pobl anabl, y mwyafrif byd-eang, y gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches, y gymuned LHDTC+, plant a phobl ifanc a phobl sy'n byw mewn tlodi. | **Bydd Amgueddfa Cymru yn:** |
|---|---|
| | Gweithio mewn partneriaeth â chymunedau amrywiol Cymru i adnabod, lleddfu a lle bo'n bosib, mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag cymryd rhan a sicrhau ein bod yn hygyrch ac yn groesawgar. Byddwn yn ehangu ein hymgysylltiad â grwpiau lleiafrifedig ar draws ein hamgueddfeydd, ein gwasanaethau â'r Casgliad Cenedlaethol, gan sicrhau tegwch o ran mynediad yn ein hamgueddfeydd, yn ddigidol ac mewn cymunedau ar draws Cymru. |
| | Adnabod, dathlu a chynrychioli hanes, creadigrwydd, amrywiaeth a chroestoriadedd ymhlith pobl Cymru, boed hynny trwy ein hamgueddfeydd, adnoddau addysg, rhaglenni neu arddangosfeydd, gan weithio i sicrhau grym gweithredu i leisiau amrywiol, rhoi llwyfan i leisiau sydd heb eu clywed hyd yn hyn a dad-drefedigaethu Amgueddfa Cymru. |
| | Datblygu a hyrwyddo manteision iechyd a lles ymweld â'n hamgueddfeydd a defnyddio ein hadnoddau er mwyn dysgu a hamddena. |
| | Mynd ati'n rhagweithiol i ymgysylltu ac adeiladu perthynas bositif â'r cymunedau amrywiol rydyn ni'n eu gwasanaethu, gan weithio y tu hwnt i waliau'r Amgueddfa, er mwyn deall eu hanghenion a'u dyheadau a galluogi Amgueddfa Cymru i'w diwallu. |
| | Gwella ein cyfathrebu dwyffordd gyda'n hymwelwyr a'n cymunedau trwy adeiladu ar ein sylfeini o gynnal ein rhaglenni cyhoeddus yn Gymraeg, Iaith Arwyddion Prydain a Saesneg, gan ehangu ein darpariaeth i gynnwys sain-ddisgrifio, adnoddau Hawdd eu Deall ac ieithoedd eraill lle bo hynny'n briodol. |
| | Deall gwerth profiad bywyd, gwybodaeth ac arbenigedd cymunedau amrywiol Cymru, cydweithio gyda chymunedau a chydnabod eu cyfraniadau yn briodol. |
| | Datblygu a chynnal rhaglenni penodol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc gan roi cyfleoedd iddynt arddel eu grym gweithredu a phenderfynu er mwyn siapio Amgueddfa Cymru a datblygu eu sgiliau. |



AMGUEDDFA CYMRU

| | Bydd Amgueddfa Cymru yn: |
|---|---|
| Mae **Ein Diwylliant** yn Wrth-hiliol, Gwrth-ableddol, yn gynhwysol ac yn adlewyrchu amrywiaeth Cymru. | Anelu at fod yn gyflogwr sy'n gallu denu pobl i weithio gyda ni ac yn cynrychioli pobl Cymru. |
| | Datblygu polisïau, prosesau a diwylliant cynhwysol sy'n sicrhau ein bod yn gallu recriwtio, datblygu a chadw'r bobl orau (y Bwrdd, ein staff, Cynhyrchwyr Amgueddfa Cymru a'n gwirfoddolwyr). |
| | Annog pobl o grwpiau lleiafrifedig i weithio neu wirfoddoli gyda ni a'u cefnogi er mwyn iddynt ffynnu o fewn y sefydliad. |
| | Sicrhau fod diwylliant y sefydliad yn Wrth-hiliol, yn Wrth-ableddol, yn gynhwysol ac yn galluogi trwy raglen dysgu a datblygu ar gyfer ein Bwrdd, ein staff a'n gwirfoddolwyr er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth ddiwylliannol a dathlu amrywiaeth. |
| | Sicrhau arferion cyflogaeth a gwirfoddoli teg er mwyn hyrwyddo amgylchedd cefnogol a diogel i bawb a gwella llesiant. |
| | Darparu ystod o adnoddau a chyfleoedd er mwyn galluogi unigolion i ddatblygu ar lefel bersonol ac yn eu gyrfaoedd, gan chwalu'r nenfwd wydr neu rwystrau eraill i recriwtio a datblygu pobl o grwpiau lleiafrifedig neu grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. |
| | Creu, monitro a chyhoeddi ein strategaethau, adroddiadau a chynlluniau gweithredu (e.e. yr Adroddiad Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau) er mwyn deall unrhyw wahaniaeth ym mhrofiad ein staff, gwirfoddolwyr ac ymwelwyr a mynd i'r afael ag e. |
| | Gwreiddio'r broses Asesu Effaith ar Gydraddoldeb er mwyn sicrhau sylw dyladwy yn ein polisïau ac arferion a defnyddio'r asesiadau i fynd i'r afael ag effeithiau negyddol anghymesur a gwella ein harferion. |

| Mae **Ein Harweinwyr** yn ymroi i greu diwylliant Gwrth-hiliol, Gwrth-ableddol a chynhwysol, gan fod yn fodelau rôl i'r corff yn unol â'n hymrwymiad i gyfrannu at greu Cymru sy'n fwy cyfartal. | **Bydd Amgueddfa Cymru yn:** |
|---|---|
| | Sicrhau bod ein harweinwyr (y Bwrdd a'r Uwch Reolwyr) yn atebol am wireddu Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2025-2028 trwy ddatblygu Cynllun Gweithredu blynyddol manwl fydd yn sail i bob agwedd ar ein gwaith. |
| | Mynd tu hwnt i'n dyletswyddau statudol a thuag at arfer orau mewn meysydd fel Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, y Safonau Iaith Gymraeg a'r Cynllun Hyderus o ran Anabledd. |
| | Gweithio mewn ffordd sy'n galluogi ein harweinwyr i rymuso eraill, rhannu'r grym gweithredu a phenderfynu (lle bo hynny'n briodol) â'n staff a chymunedau lleiafrifedig ac amrywiol Cymru, gan gydweithio er mwyn datblygu a gwireddu ein gwaith. |
| | Canfod ffyrdd o ddatblygu amrywiaeth safbwyntiau ar ein Bwrdd; ymhlith ein harweinwyr, rheolwyr a swyddi uwch a thrwy ein pwyllgorau, strwythurau a phrosesau penderfynu. |